# CYNGOR CYMUNED PISTYLL
# COFNODION CYFARFOD MISOL

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | **Nos Fawrth – 9fed o Orffennaf, 2024** |
| **AMSER** | **7 y.h.** |
| **LLEOLIAD** | **Festri Capel Isa, Llithfaen** |
| **CADEIRYDD** | **Gethin Jones** |

| | |
|---|---|
| **1.** | **CROESO** |
| | Croesawodd y Cadeirydd Gethin Jones **(GJ)** bawb i'r cyfarfod.<br><br>**YN BRESENNOL:**<br><br>William Jones **(WJ);** Gethin Jones **(GJ);** Osian Hugh Williams **(OHW);** Griffith John Leslie Jones **(GJLJ);** Sianelen Pleming **(SP);** Lois Fychan **(LF)**; Y Cyng. Jina Gwyrfai **(JG);** a'r clerc Gillian Thomas **(GT)** |
| **2.** | **YMDDIHEURIADAU** |
| | **DERBYNIWYD YMDDIHEURIADAU GAN**<br><br>Ynyr Ellis **(YE);** Emlyn Williams **(EW).** Olwen Roberts **(OR);** Derek Thomas **(DT).** |
| **3.** | **CYFLWYNO A MABWYSIADU COFNODION CYFARFOD MEHEFIN 2024** |
| | Cynigwyd y cofnodion yn gywir gan OW gydag GJ yn eilio |
| **4.** | **MATERION YN CODI** |
| | **a) MAINC LON CARNGUWCH / DYFYNBRIS GOSOD**<br>Nid oedd GJLJ yn rhan o'r drafodaeth.<br>Adroddodd y clerc bod y fainc bellach wedi ei archebu. Esboniodd bod gormod o waith llafur i'w sefydlu gan GJLJ I berwyl hyn roedd wedi argymell i'r clerc ddarganfod dyfynbrisiau gosod gan gwmnïau lleol.<br><br>Rhannodd y clerc ddau ddyfynbris am £175 ac £190<br>Cynigiodd OW dderbyn £175 eiliodd WJ<br><br>**b) TWMPATHAU /STRIBEDI CYFLYMDER I BISTYLL**<br>Rhannodd y Clerc ymateb Tîm Go Safe yn adrodd y byddent yn gofyn i'r Tîm Ymgysylltu ymweld ar safle er mwyn gweld os ydy'r lleoliad yn addas. Gofynnent i'r Cyngor fod yn amyneddgar gan eu bod yn cwmpasu Gogledd Cymru gyfan a hefo nifer fawr o leoliadau ar gyfer eu tîm ymgysylltu.<br><br>**c) GJLJ – PONT LLITHFAEN**<br>Adroddodd y Clerc bod rhestr gwaith yr uned traffig yn orlawn erbyn hyn. Nid oes digon o adnoddau gan yr uned i weithredu yn effeithiol ar adolygiadau newydd ar draws y sir. Felly maent wedi dod i'r penderfyniad anodd i beidio â chymryd ymholiadau newydd ymlaen (heblaw am bryderon gôr-yrru) gan eu bod yn gweithio trwy'r ôl-groniad ac mae'n debyg fydd y broses yma yn cymryd nifer o fisoedd i'w gwblhau. O ganlyniad, ni fyddent yn ychwanegu i'r rhestr bresennol ac maent yn gofyn yn garedig i'r Cyngor ddal unrhyw ymholiadau newydd yn ôl dros y cyfnod yma, cyn iddynt ailgydio ar adolygiadau ar ôl y cyfnod dal i fyny. Mi fydd pethau sydd wedi codi yn flaenorol yn cael sylw ond nid oes amserlen weithredol i'r perwyl hyn. |

| | |
|---|---|
| | **d)** <u>**OW – GORDYFIANT YM MHISTYLL**</u><br>Nid oedd y clerc wedi derbyn diweddariad am raglen waith<br><br>**e)** <u>**SP - GÔR YRRU AR LON RHOSYDD**</u><br>Roedd y clerc wedi llythyru a Phennaeth yr adran Traffic ac Andrew Gregson, derbyniwyd ymateb gan Andrew Gregson yn unig yn adrodd yn anffodus yr un neges oedd ganddo ac 4c.<br>Y clerc i ohebu ymhellach yn adrodd bod y gwyn hwn yn broblem hanesyddol ers tair blynedd.<br>Cais am rywbeth i arafu traffic neu nadu traffic o gwbl, copïo Lis Saville a Mabon Ap Gwynfor hefyd.<br><br>**f)** <u>**JG - AMBIWLANS AWYR CYMRU**</u><br>Rhannodd y clerc ymateb gan Ambiwlans Awyr Cymru i wrthwynebiad y Cyngor.<br><br>**g)** <u>**JG – TYN PARC LLITHFAEN**</u><br>Gyrrwyd ymateb y Cyngor I'r perchnogion yn adrodd bod y Cyngor Cymuned yn cefnogi argymhellion yr Adran Cynllunio.<br><br>**h)** <u>**DT - BUDREDDI CWN YN Y CAE CHWARAE LLITHFAEN**</u><br>Adran briodol y Cyngor Sir yn cadw golwg ar y mater, roeddent yn ymwybodol bod y cwn yn rhedeg yn rhydd yn gyson.<br><br>**i)** <u>**BWRIAD GAN UN O DRIGOLION PISTYLL I GEFNOGI'R DIFFIBLWR**</u><br>£30 bellach wedi ei drosglwyddo i gyfrif y Cyngor a llythyr o ddiolch wedi ei yrru i Julie Holland.<br><br>j) <u>**MENTER RABAR - CAIS AM GEFNOGAETH ARIANNOL**</u><br>Gyrrwyd cefnogaeth y Cyngor ymlaen ac ymddiheuriadau ei fod yn bolisi'r Cyngor i gefnogi yn ariannol mudiadau lleol yn unig. |
| **5.** | **DATGAN DIDDORDEB** |
| | GJLJ 4 (a) |
| **6.** | **DIWEDDARIADAU ASEDAU** |
| | Popeth mewn cyflwr derbyniol, eithrio pwynt 8. |
| **7.** | **CEISIADAU CYNLLUNIO** |
| | Dim i'w drafod |
| **8.** | **BIN GWASTRAFF CI PEN DRAW LLITHFAEN AM BISTYLL** |
| | Derbyniwyd gohebiaeth gan Warden Gorfodaeth Stryd Dwyfor / Meirionydd yn adrodd bod bin gwastraff ci ochor Pistyll i Lithfaen wedi torri. Cytunwyd buasai GJLJ yn taro golwg arno i weld os oedd modd ei atgyweirio. Y clerc i archebu bin newydd os bydd rhaid. |
| **9.** | **SAFLE WE'R CYNGOR** |
| | Dim diweddariad pellach |
| **10.** | **LLECYNNAU ANGEN EU HARDDU YN LLITHFAEN** |
| | Rhannodd y clerc ganlyniad ei ymholiadau ac adroddodd bod y tir o flaen y Capel wedi ei gofrestru i'r Goron.<br>Nid oedd wedi derbyn gwybodaeth am y llecynnau eraill.<br>SP am drafod y mater gyda John Llyfnwy yn ystod yr haf. |

*Darparwyd gan: Clerc y Cyngor, 1 Y Dreflan, Rhosgadfan, Caernarfon, Gwynedd. LL54 7HP*
*Ffon: 07979 438 307 E.Bost: ccpistyll@outlook.com Gwefan: https://cyngorcymunedpistyll.weebly.com*

| | |
|---|---|
| **11.** | **Y GANOLFAN, LLITHFAEN** |
| | Gwaith yn parhau - Gofynnodd GJLJ beth oedd wedi digwydd i'r gloch, nid oedd SP yn ymwybodol bod cloch ar y safle, cytunodd drafod gyda Phwyllgor y Ganolfan. |
| **12.** | **LWFANSAU CYNGHORWYR** |
| | Derbyniwyd gwrthwynebiadau'r aelodau i dderbyn unrhyw lwfans. |
| **13.** | **MATERION LLEOL** |
| | **a)** **OR – PONT BRYN CELYN LLIFTHAEN**<br>Derbyniwyd cais blaen llaw'r cyfarfod gan OR yn adrodd am ordyfiant ar y Bont oedd mwy na thebyg wedi arwain at ddamwain ar y Bont yr wythnos diweddaf.<br>Eu hatgoffa hefyd am lifogydd oherwydd y gordyfiant yn ystod tywydd gwlyb.<br><br>**b)** **GORDYFIANT YN LLITHFAEN**<br>Teuluoedd yn methu cerdded gyda phram oherwydd gordyfiant ar hyd y wal heibio Awelfryn.<br>Gordyfiant Awelfryn yn ofnadwy<br>Pentrefi Llyn yn ofnadwy o flêr, JG am ofyn i'r Cyngor newid eu polisïau.<br><br>**c)** **SBWRIEL YN AWELFRYN**<br>Y clerc i ohebu ac Adra yn adrodd bod sbwriel dychrynllyd mewn rhai o'r gerddi a cheir heb olwynion. Hefyd pwysleisio bod gormodedd o geir.<br><br>**d)** **JG- MYNWENT LLITHFAEN**<br>Adroddodd JG bod y Gwasanaeth Prawf wedi bod yn torri gwair y fynwent ond bod llawer o ddrain a mieri heb ei gwneud, bydd yn gwneud cais i rain gael sylw yn y dyfodol.<br><br>e) **SP - GÔR YRRU**<br>Adroddodd SP bydd trigolion yn gorchwylio cyflymder gyda'r gwn cyflymder am 5 o gloch dydd Gwener yn Llithfaen.<br><br>**f)** **GJLJ - PANT YN LÔN DROS FFORDD AC ARFRYN LLITHFAEN**<br>Y clerc i adrodd i Briffyrdd Dwyfor<br><br>g) **GJ – CYFARFOD EITHRIADOL I DRAFOD CEISIADAU CYNLLUNIO**<br>Gan nad yw'r Cyngor yn cyfarfod fis Medi cytunwyd paratoi cyfarfod rhithiol i drafod ceisiadau cynllunio. |
| **14.** | **HYFFORDDIANT** |
| | JG am gwyno eto am ddiffyg darpariaeth o hyfforddiant Cymraeg |
| **15.** | **GOHEBIAETH A GWYBODAETH** |
| | **a)** **GRANTIAU AWYR FAWR £5000**<br><br>**b)** **YMATEB - GWRTHWYNEBIAD I'R NEWIDIADAU YNG NGWASANAETHAU 'R AMBIWLANS AWYR YNG NGOGLEDD Cymru** |
| **16.** | **CYLLID** |

| | | |
|---|---|---|
| + | **CYFRIF CYFREDOL MAWRTH 2024** | **£ 17,184.69** |
| + | **CYFRIF CADW MAWRTH 2024** | **£ 2,717.05** |
| - | **LLAI TALIADAU HEB YMDDANGOS YN Y BANC** | **£ 3,936.75** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| + | GWARGED 2024/ 2025 | | £ 368.60 |
| = | CRONFA'R CYNGOR | = | £ 16,333.59 |

**CYFRIF CYFREDOL - 01 o Fehefin I 30 o Fehefin 2024**

| | | |
|---|---|---|
| Balans Agoriadol | | £ 18,654.61 |
| Derbyniadau | + | £ 30.00 |
| Gwariant | - | £ 2,353.11 |
| Balans Cau | = | £ 16,331.50 |

**CYFRIF CADW - 07 Ebrill I 6ed o Fai 2024**

| | | |
|---|---|---|
| Balans Agoriadol | | £ 2,717.05 |
| Derbyniadau | + | £ - |
| Gwariant | - | £ - |
| Balans Cau | = | £ 2,717.05 |
| | = | £ 19,048.55 |

**LLAI TALIADAU HEB EU CYFLWYNO YN Y BANC**

| | | | |
|---|---|---|---|
| - | Cylch Meithrin Pentre-uchaf | 201298 | £ 200.00 |
| - | Cyngor Gwynedd | 201314 | £ 570.00 |
| | | = | £ 770.00 |

**LLAI TALIADAU I'W CYMERADWYO**

| | | | |
|---|---|---|---|
| - | Archwilwyr Cymru 20-21 | 201317 | £ 343.00 |
| | Archwilwyr Cymru 21-22 | 201318 | £ 376.00 |
| | J Gwyrfai | 201319 | £ 78.00 |
| | Hughes Jones Dyson | 201320 | £ 240.00 |
| | Glasdon | 201321 | £ 602.87 |
| | Cyflog Clerc | 201322 | £ 274.60 |
| | Treuliau Clerc | "" | £ 30.49 |
| | | = | £ 1,944.96 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **SYDD YN CYTUNO GYDA CHRONFA'R CYNGOR** | | = | £ 16,333.59 |
| - | LLAI BALANS CRONFA DIFFIBLWR (LL) | - | -£ 15.70 |
| - | LLAI BALANS CRONFA DIFFIBLWR (P) | | £ 242.00 |
| = | CYFANSWM CYWIR Y CYFRIFON | = | £ 16,107.29 |

| | |
|---|---|
| **17.** | **CYFARFOD NESAF Y CYNGOR** |
| | 20fed Fedi 2024, Capel Isaf Llithfaen i gychwyn am 7p.m |